Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Busnes

National Assembly for Wales
Business Committee

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/BG

10 Gorffennaf 2019

Annwyl Llyr

Amserlen cyllideb 2020-21

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.2, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cael hysbysiad ffurfiol bod y Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi cynigion amlinellol a chynigion manwl Cyllideb Ddrafft 2020-21 ar 10 Rhagfyr, ac yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb derfynol ar 3 Mawrth 2020. Rwy'n ysgrifennu atoch i geisio barn y Pwyllgor Cyllid ynghylch y terfyn amser arfaethedig i chi gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft, fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.4.

Wrth benderfynu ar y terfyn amser hwn, mae Rheol Sefydlog 20.5(i) yn nodi bod yn rhaid rhoi wyth wythnos fel arfer i'r Pwyllgor Cyllid adrodd ar gynigion cyllideb amlinellol, tra bod Rheol Sefydlog 20.5(ii) yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid rhoi o leiaf bum wythnos i bwyllgorau eraill ystyried cynigion cyllideb manwl, yn unol â'r amserlen a bennir gan y dyddiadau uchod a nodwyd yn hysbysiad y Llywodraeth.

Mae'r Trefnydd wedi nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu trefnu'r ddadl ar y gyllideb ddrafft ar ddydd Mawrth 11 Chwefror 2020. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Cyllid a phwyllgorau eraill adrodd erbyn dydd Mawrth 4 Chwefror 2020.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddSiambr@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/PwyllgorBusnes
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddChamber@assembly.wales
www.assembly.wales/BusinessCommittee
0300 200 6565

Yn ei llythyr, nododd y Trefnydd fod ansicrwydd digynsail eleni ynghylch bwriad Llywodraeth y DU ar gyfer adolygiad o wariant ac amseriad ei chyllideb. Pe bai'n bosibl gwneud hynny, byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno ei chyllideb yn gynharach yn yr hydref, gan ofyn i'r Pwyllgor Busnes adolygu'r amserlen yn unol â hynny.

Byddwn yn ddiolchgar i glywed eich barn ar yr amserlen arfaethedig cyn gynted â phosibl, fel bod modd i'r Pwyllgor Busnes gyhoeddi'r amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb yn fuan ar ôl toriad yr haf. Byddwn yn ddiolchgar hefyd i glywed eich barn ar y posibilrwydd o newid yr amserlen fel y disgrifiwyd, pe bai'r Llywodraeth yn gofyn am wneud hynny.

Yn gywir



Elin Jones AC
Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes